# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 27 Medi 2012** |
| Amser: | **10: - 12:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2012(7)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog)**<br>**Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad (Swyddog)**<br>**Nicola Callow, Pennaeth Cyllid (Swyddog)**<br>**Dave Tosh (Swyddog)**<br>**Non Gwilym (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**David Melding, y Dirprwy Lywydd** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Bydd Keith Bush, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn gadael y Cynulliad ym mis Hydref. Diolchodd y Llywydd a'r Comisiynwyr i Keith am ei gyngor a'i wasanaeth arbenigol ac amhrisiadwy yn ystod ei amser yn y Cynulliad a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Comisiynwyr ar gofnodion 12 Gorffennaf 2012.

## 2. Cyllideb ddrafft 2013-14

Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod ei gyllideb ddrafft yn flynyddol erbyn 1 Hydref. Mae cyllideb ddrafft 2013-14 y Comisiwn yn nodi'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu gwaith Gwasanaethau'r Cynulliad sy'n flaenoriaeth yn ogystal â'r gyllideb sydd ei hangen i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn ar ei gyllideb ddrafft, a gofyn iddo gael ei osod yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Bydd Angela Burns AC, y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros adnoddau, yn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref 2012 i sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft.

Diolchodd y Comisiynwyr i'r swyddogion am eu gwaith ar y gyllideb ddrafft hyd yma.

Cytunwyd na fyddai'r papur yn cael ei gyhoeddi gan y byddai'r gyllideb ddrafft yn cael ei gosod y diwrnod canlynol.

**Cam i'w gymryd:** Swyddogion i osod dogfen cyllideb ddrafft 2013-14 gerbron y Cynulliad ar 28 Medi 2012

## 3. Strategaeth ddrafft ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol

Bydd Cytundeb Merlin, ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad, yn dod i ben yn 2014. Mae'n ofynnol bod y Comisiwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru ac Atos o'i benderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad yn y dyfodol erbyn mis Ebrill 2013.
Ym mis Tachwedd 2011, cytunodd y Comisiwn i asesu dau opsiwn: ymestyn cytundeb Merlin; neu symud at ddarpariaeth fewnol gymysg.
Ystyriodd y Pwyllgor ei strategaeth ddrafft ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol a chytuno i ddod i benderfyniad o ran darpariaeth gwasanaethau TGCh yn y dyfodol ym mis Tachwedd 2012.

Bydd y Comisiynwyr yn trafod hyn ymhellach mewn cyfarfod ychwanegol ym mis Hydref.

Cytunwyd na fyddai'r papur yn cael ei gyhoeddi oherwydd natur fasnachol ei gynnwys.

**Cam i'w gymryd:** Swyddogion i ddarparu costau manylach.

## 4. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a’r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog

Trafododd y Comisiwn drafodion Cyfnod 3 a 4 y Bil, sydd i ddigwydd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 3 Hydref, a chlywed y wybodaeth ddiweddaraf ar faterion yn ymwneud â'r Bil a'r Cynllun.

Diolchodd y Comisiynwyr i'r swyddogion am eu hymdrechion hyd yma yn cefnogi'r Bil wrth iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad.

## 5. Y wybodaeth ddiweddaraf ac awgrymiadau gan y Comisiynydd

Rhannodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â'u portffolios.

**Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**

Mae’r gweithgareddau a ganlyn yn mynd rhagddynt: datblygu technoleg XML ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn, datblygu Ap ar gyfer y Cynulliad, ac ymestyn cyfleusterau di-wifr ar draws yr ystâd.

**Defnyddio adnoddau'n ddoeth**

Clywodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o staff Aelodau'r Cynulliad a'r adolygiad o drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

## 6. Papur i'w nodi – Cofnodion y Pwyllgor Archwilio

Cafodd y Comisiwn y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar yng nghyfarfod y Comisiwn ar 12 Gorffennaf, ond nid oedd y cofnodion ar gael i'w cymeradwyo yn y cyfarfod hwnnw. Nododd y Comisiwn y cofnodion.

## 7. Unrhyw Fusnes Arall

Clywodd y Comisiynwyr fod set newydd o Gynghorwyr Annibynnol yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd.

Rhoddodd Keith Bush y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am yr her i gymhwysedd y Cynulliad o ran Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Medi 2012**